Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | Cyfarfod: | Bwrdd Plismona |
|---|---|---|
| | Lleoliad: | Ystafell Gynadledda SCHTh |
| | Dyddiad: | 11 Hydref 2017 |
| | Amser: | 09:30 – 11:30 |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (JW)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mrs Alison Perry, Cyfarwyddwr Comisiynu (AP)<br>Arol. Gwyndaf Bowen (GB)<br>Miss Mair Harries, Swyddog Cymorth Gweithredol (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DBG)<br>DS Siân Davies, Swyddog Staff (DS SD) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 03/10/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2196** | **Cam Gweithredu: Drafftio adroddiad byr ar yr opsiynau o ran dalfa Sir Gaerfyrddin er mwyn cefnogi'r penderfyniad i brynu tir.** | **Parhaus** |
| **PB 2197** | **Cam gweithredu: KP i ysgrifennu at achwynyddion sydd wedi bod yn aros yn hir a drafodwyd yn ystod y cyfarfod gan nodi sut mae eu hachosion yn cael eu symud ymlaen.** | **Cwblhawyd** |

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 11/10/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Penderfyniad** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 45** | **HDP i gynnal peilot 12 mis o'r Cynllun Brysbennu Dalfeydd arfaethedig yn nalfa Hwlfforddd.** | **AP** |
| **PB T2 46** | **Bod cynigion mewn perthynas â dyfodol y cytundeb ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu cymeradwyo.** | **AP/Adnoddau'r Heddlu** |

**2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 3 Hydref a materion yn codi.**

Cytunwyd bod y cofnodion o'r Bwrdd Plismona'n gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod gyda rhai mân newidiadau.

**3. Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Diweddariad Gweithredol

Dywedodd y PG bod dau aelod staff wedi'u hatal o'r gwaith ar hyn o bryd. Diweddarodd y PG y Bwrdd ar amryw o ddiweddariadau gweithredol, gan gynnwys ymosodiad â morthwyl yng Nghaerfyrddin, pum ymosodiad ar swyddog ers y BP diwethaf, a digwyddiad traffig yn Storey Arms.

Diweddarodd y PG y Bwrdd ar ddiwrnod o weithredu HDP ar draws yr ardal a oedd yn canolbwyntio ar fregusrwydd.

Holodd y CHTh am ymosodiad yn y Drenewydd a sut mae hyn yn cysylltu â'r prosiect TCC ym Mhowys.

Diweddariad sefydliadol

Diweddarodd y PG y Bwrdd ar ei bresenoldeb yn y seremoni gwasanaeth hir, ac ardystiad 23 recriwt newydd.

## 4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Lleol

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ar ei weithgareddau o fewn SCHTh. Cadarnhaodd CM bod penodiad wedi ei wneud i'r Cydbwyllgor Archwilio.

Cenedlaethol

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ar ymweliad gan gynrychiolydd o'r Coleg Plismona a chyfle i eistedd ar banel yn arsylwi ar ddatblygiad uwch swyddogion.

## 5. Materion i'w Hystyried

### a. Gwaith Comisiynu Sydd Angen

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chomisiynu, gyda llawer iawn o gytundebau'n dod i ben ym mis Mawrth 2018 ac sydd angen penderfyniad/gweithredu. Diweddarodd AP y Bwrdd ar adborth gweithredol cadarnhaol a dderbyniwyd ar gyfer gwaith a gomisiynwyd mewn perthynas â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant.

**Cam Gweithredu: AP i roi Traethawd Hir Cwrs Meistr a gwblhawyd gan aelod staff HDP ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant i'r CHTh.**

Trafododd y grŵp y gwaith cyfiawnder adferol a gomisiynwyd ac effaith bwriadol hyfforddi swyddogion a pholisi CA yr Heddlu, sydd wedi ei ddiwygio.

**Cam Gweithredu: Yr heddlu i ddarparu papur briffio mewn perthynas â sut y bydd yr hyfforddiant a'r polisi diwygiedig yn effeithio ar ymwybyddiaeth dioddefwyr ac yn cynyddu cyfeiriadau i wasanaeth a gomisiynir.**

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â rhannu manylion cyswllt dioddefwyr rhwng gwasanaethau lle mae cyfeiriadau'n briodol.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ymgysylltu â Goleudy mewn perthynas ag unrhyw faterion cydsyniad / Cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r broses cyfeirio dioddefwyr ar gyfer cyfiawnder adferol.**

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â gwaith a gomisiynwyd o ran Cam-drin Domestig. Soniodd AP am y cynlluniau ar gyfer cyd-gomisiynu gwasanaeth Ymgynghorol Annibynnol Cam-drin Domestig rhwng y CHTh a'r pedwar Awdurdod Lleol yn Nyfed-Powys. Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ar adroddiad cam-drin domestig a gyflwynwyd yn Symposiwm Ymchwil SCHTh ym mis Hydref.

**Cam Gweithredu: SCHTh i adrodd am gyflwyniad cam-drin domestig i Lywodraeth Cymru yn dilyn Symposiwm Ymchwil SCHTh.**

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â gwaith a gomisiynir o ran Cam-drin Domestig. Tynnodd AP sylw at faterion sy'n gysylltiedig â chanolfannau cyfeirio ymosodiadau rhyw o ran gwaith cydweithredol Cymru Gyfan. Ailadroddodd y CHTh bwysigrwydd darparu gwasanaethau o fewn yr ardal heddlu.

**Cam Gweithredu: CHTh i ystyried presenoldeb yng nghyfarfod y PG gyda Phennaeth Bwrdd Iechyd Hywel Dda.**

Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â chytundebau Goleudy a Bodlonrwydd Dioddefwyr.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i roi diweddariad mewn perthynas â chynnydd yn erbyn y cytundeb Bodlonrwydd Dioddefwyr.**

Rhoddodd AP ddiweddariad ar waith a gomisiynwyd ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau ym Mhowys a Dyfed yn ôl eu trefn. Trafododd y Bwrdd y nifer isel o gyfeiriadau i'r gwasanaeth a'r rhesymau y tu ôl i hyn.

**b. Cynllun Brysbennu Dalfeydd**

Cyflwynodd AP bapur mewn perthynas â chynllun brysbennu dalfeydd a gyflawnwyd gan Heddlu Durham a chynigion ar gyfer sut y gallai cynllun tebyg gweithio o fewn HDP. Trafododd y Bwrdd yr opsiynau ac ystyriwyd sefyllfa HDP mewn perthynas â'r gwaith Braenaru Menywod cyfredol sy'n cael ei arwain gan IOM Cymru. Ystyriwyd bod ehangu cwmpas y gwaith dargyfeiriol presennol yn fwy gwerthfawr ar hyn o bryd nag ehangu'r prosiect troseddwyr benywaidd ar draws y system cyfiawnder troseddol ar hyn o bryd.

**Penderfyniad: HDP i gynnal peilot 12 mis o'r Cynllun Brysbennu Dalfeydd arfaethedig yn nalfa Hwlffordd.**

**Cam Gweithredu: AP a'r Heddlu'n arwain o ran symud ymlaen â threfniadau peilot ar gyfer gweithredu ar 1 Ebrill 2018.**

**c. Cytundeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Cyflwynodd AP bapur a oedd yn amlinellu cynigion ar gyfer trawsnewid y cytundeb ymddygiad gwrthgymdeithasol, sef: i. cynnwys y gwaith dioddefwyr o fewn gwasanaeth Goleudy; ii. Canolfannau Diogelwch Cymunedol yr Heddlu i weithio gydag asiantaethau partner PDC i ddatblygu modelau rheoli bro fel yr arddangoswyd yn Llanelli yn ddiweddar; iii. ystyried system TG MAVIS yr Heddlu i'w rhannu a'i defnyddio fel platfform rhannu gwybodaeth amlasiantaeth. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r cynigion, gan gynnwys y dyblygu presennol rhwng gwasanaethau unigol ar gyfer dioddefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Hefyd, trafododd y Bwrdd ymagweddau datrys problemau gyda phartneriaid a'r defnydd o'r model rheoli bro i fynd i'r afael â materion cymunedol. Cyflwynodd AP yr adborth a dderbyniwyd gan bartneriaid a thimoedd heddlu mewn perthynas â'r cytundeb cyfredol a thrafododd y Bwrdd y posibilrwydd ar gyfer rhannu gwybodaeth a systemau TG. Holodd AP ynghylch argaeledd cymorth ychwanegol i reoli'r cyfnod trawsnewid.

**Penderfyniad: Bod cynigion mewn perthynas â dyfodol y cytundeb ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu cymeradwyo.**

**Cam Gweithredu: AP i symud trafodaethau ymlaen gyda Gwalia mewn perthynas â threfniadau trwydded interim ar gyfer React.**

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ystyried adnoddau ar gyfer goruchwylio'r prosiect trawsnewid.**

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i symud ymlaen â rhannu'r system MAVIS â phartneriaid.**

**7. Unrhyw Fusnes Arall**

a. Diweddariad y PSA ar Grŵp Adnoddau a Chyllid Heddluoedd Cymru

Diweddarodd y PSA y Bwrdd ar argaeledd cyllid refeniw a grantiau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

b. Symposiwm Ymchwil

Roedd y Symposiwm Ymchwil a gynhaliwyd ar 5 Hydref yn llwyddiannus.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 11/10/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2199** | **AP i roi Traethawd Hir Cwrs Meistr a gwblhawyd gan aelod staff HDP ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar** | **AP** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Blant i'r CHTh.** | |
| **PB 3000** | **Yr heddlu i ddarparu papur briffio mewn perthynas â sut y bydd yr hyfforddiant a'r polisi diwygiedig yn effeithio ar ymwybyddiaeth dioddefwyr ac yn cynyddu cyfeiriadau i wasanaeth a gomisiynir.** | **GB** |
| **PB 3001** | **Yr Heddlu i ymgysylltu â Goleudy mewn perthynas ag unrhyw faterion cydsyniad / Cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r broses cyfeirio dioddefwyr ar gyfer cyfiawnder adferol.** | **GB** |
| **PB 3002** | **SCHTh i adrodd am gyflwyniad cam-drin domestig i Lywodraeth Cymru yn dilyn Symposiwm Ymchwil SCHTh.** | **MH** |
| **PB 3003** | **CHTh i ystyried presenoldeb yng nghyfarfod y PG gyda Phennaeth Bwrdd Iechyd Hywel Dda.** | **CHTh** |
| **PB 3004** | **Yr Heddlu i roi diweddariad mewn perthynas â chynnydd yn erbyn y cytundeb Bodlonrwydd Dioddefwyr.** | **GB** |
| **PB 3005** | **AP a'r Heddlu'n arwain o ran symud ymlaen â threfniadau peilot ar gyfer gweithredu ar 1 Ebrill 2018.** | **AP** |
| **PB 3006** | **AP i symud trafodaethau ymlaen gyda Gwalia mewn perthynas â threfniadau trwydded interim ar gyfer React.** | **AP** |
| **PB 3007** | **Yr Heddlu i ystyried adnoddau ar gyfer goruchwylio'r prosiect trawsnewid.** | **GB** |
| **PB 3008** | **Yr Heddlu i symud ymlaen â rhannu'r system MAVIS â phartneriaid.** | **GB** |